

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Hybrid 0300 200 6565
Dyddiad: Dydd Llun, 13 Tachwedd Deisebau@senedd.cymru
2023
Amser: 14.00

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Sesiwn Tystiolaeth – P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

(Tudalennau 1 – 10)

- Dr Martin Price, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Bro Morgannwg
- Laurence Matuszczyk, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Merthyr Tudful
- David Blackwell, Pennaeth Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri a Chadeirydd Fforwm Cyllideb Addysg Bro Morgannwg
- Matthew Gilbert, Pennaeth Ysgol Gynradd Ynys y Barri

3 Deisebau newydd

3.1 P-06-1360 Dylid adeiladu ffordd ymadael syml rhwng yr M48 tua'r gorllewin a'r M4 tua'r dwyrain yn Rhosied

(Tudalennau 11 – 15)



- 3.2 P-06-1364 Argyfwng deintyddiaeth yng Nghymru. Rhaid sicrhau bod gan bob oedolyn a phlentyn fynediad at ddeintydd
(Tudalennau 16 – 23)
- 3.3 P-06-1365 Ail-agor llinellau rheilffordd i gysylltu gogledd a de Cymru
(Tudalennau 24 – 66)
- 3.4 P-06-1366 Adfer y cyllid ar gyfer gwasanaethau Bysiau Cwm Taf 351 (Dinbych-y-pysgod i Bentywyn) a 352 (Dinbych-y-pysgod i Gilgeti)
(Tudalennau 67 – 73)
- 3.5 P-06-1368 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gadw'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol mewn perthynas â Chymru
(Tudalennau 74 – 99)
- 3.6 P-06-1369 Defnyddiwch enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru
(Tudalennau 100 – 107)
- 3.7 P-06-1370 Achub y ddarpariaeth mân anafiadau dros nos yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni
(Tudalennau 108 – 115)
- 3.8 P-06-1373 Dylid atal Llywodraeth Cymru rhag gwastraffu £4 miliwn ar ddatblygiad preifat "Skyline" ar Fynydd Cilfái, Abertawe
(Tudalennau 116 – 126)
- 3.9 P-06-1375 Cynnal etholiad Senedd yn gynnar
(Tudalennau 127 – 129)

4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

- 4.1 P-06-1356 Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477
(Tudalennau 130 – 132)

5 Papur i'w nodi – P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalau yng Nghymru

(Tudalennau 133 – 134)

- 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

- 7 Trafod y dystiolaeth – P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1358: Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Medi 2023
Petitions Committee | 25 September 2023

Cyfeirnod: SR23/6779-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1358

Teitl y ddeiseb: Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Testun y ddeiseb: Mae gan lawer o ysgolion ddiffyg yn y cyllidebau a osodwyd ganddynt ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Yn fwy na hynny, mae'n bosibl y bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn cyhoeddi diffyg yn eu cyllidebau ar gyfer 2024-25. Mae'r effeithiau ar blant yn ysgolion Cymru yn ddifrifol – addysgu a dysgu gwaeth, adeiladau gwaeth, pryderon ynghylch diogelwch a gorflinder staff.

Rhagor o fanylion: Paratowyd y ddeiseb hon gan Gadeiryddion Cymdeithasau Llywodraethwyr ledled Cymru.

Mae effeithiau cyllid isel ar blant yn ysgolion Cymru fel a ganlyn:

- Gostyngiad yn ansawdd y dysgu ac addysgu
- Cymarebau oedolion/dysgwyr uwch
- Iechyd a diogelwch – llai o oruchwyliaeth oedolion, er enghraifft amser cinio ac egwylion
- Llai o staff cymorth, sy'n golygu bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn perygl o beidio â chael yr help sydd ei angen arnynt.
- Llai o oedolion mewn ystafelloedd dosbarth, sy'n rhoi pawb mewn perygl
- Llai o athrawon – naill ai oherwydd staff yn gadael a neb yn cymryd eu lle neu oherwydd dileu swyddi.



- Llai o waith cynnal a chadw ar adeiladau sy'n arwain at bryderon diogelwch
- Mwy o straen ar benaethiaid ac uwch-staff, sy'n arwain at fwy o absenoldeb oherwydd salwch a gorflinder

Ac ar yr un pryd mae ysgolion yn brwydro i roi diwygiadau addysgol ar waith. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i adolygu ar fyrder lefel y cyllid ar gyfer addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae ein plant yn haeddu'r addysg orau ac ni ddylent ddiodef oherwydd toriadau ariannol.

1. Crynodeb

- Mae ysgolion yn cael eu cyllidebau gan awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r arian a gânt gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad llywodraeth leol i ddarparu'r amrywiaeth o wasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Arian gan yr awdurdod lleol yw'r rhan helaeth o'r cyllid a gaiff ysgolion, er bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o gyllid uniongyrchol i ysgolion (drwy Consortia Addysg Rhanbarthol) o'i chyllideb addysg ar gyfer gwella ysgolion a chyllid wedi'i dargedu at addysg disgyblion difreintiedig.
- Cyfeirir at yr arian y mae awdurdodau lleol wedi bwriadu ei wario ar ysgolion fel gwariant sydd wedi'i gyllidebu. Mae hyn wedi cynyddu 8% yn 2023-24 o'i gymharu â 2022-23. Mae wedi cynyddu 26% ers 2019-20. Mae hyn yn gynnydd 5.3% mewn termau real ers 2019-20 ac yn ostyngiad 1.1% mewn termau real ers 2010-11.
- Mae cronfeydd wrth gefn yng nghyllidebau ysgolion, sef yr arian y mae'r ysgolion eu hunain yn ei ddal ac a gofnodir fel y mae ar un adeg benodol yn y flwyddyn, wedi bod yn hanesyddol uchel dros y ddwy flynedd diwethaf, er bod Llywodraeth Cymru yn dweud bod hyn yn gamarweiniol ac na fydd y sefyllfa hon yn parhau.
- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi rhybuddio bod ysgolion yn wynebu pwysau chwyddiant a bod pob awdurdod lleol wedi cofnodi gorwariant a bylchau yn eu cyllidebau.

- Yn ôl Llywodraeth Cymru, y sefyllfa ariannol bresennol gyffredinol yw'r anoddaf ers datganoli ac mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn dweud nad oes "atebion hawdd" i'r pwysau cyllidebol y mae ysgolion yn eu hwynebu.

2. Sut mae ysgolion yng Nghymru yn cael eu hariannu?

2.1. Cyllid heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau lleol

Daw'r rhan fwyaf o gyllid ysgolion gan awdurdodau lleol, a daw'r rhan fwyaf o'u cyllid hwy o'r setliad llywodraeth leol blynyddol a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Cyllid heb ei neilltuo yw'r setliad llywodraeth leol, felly bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut i ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael iddynt i'r gwasanaethau amrywiol y maent yn eu darparu, gan gynnwys addysg a nhw sy'n penderfynu faint i'w roi i ysgolion o fewn y dyraniad hwnnw.

Mae **tri phrif gam** i'r broses o bennu cyllidebau ysgolion.

- Yn gyntaf, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi **Grant Cynnal Refeniw** i bob awdurdod lleol. Ynghyd â'i ddyraniad ardrethi annomestig ailddosbarthedig, mae hyn yn rhan o Gyllid Allanol Cyfun yr awdurdodau lleol. Bydd pob awdurdod lleol yn defnyddio'r cyllid hwn, ynghyd â'r arian y mae'n ei godi drwy'r dreth gyngor, i ariannu'r amrywiaeth o wasanaethau y bydd yn eu darparu, gan gynnwys addysg. Caiff **Grant Cynnal Refeniw pob awdurdod lleol ei bennu drwy ddefnyddio fformwla** sy'n seiliedig ar Asesiadau Gwariant Safonol, sef cyfrifiad tybiannol o'r cyllid sydd ei angen ar bob awdurdod lleol i gynnal lefel safonol o wasanaeth. Caiff yr Asesiadau hyn eu rhannu'n Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion sy'n modelu'r swm tybiannol sydd ei angen ar bob

sector gwasanaeth. 'Gwasanaethau ysgolion' yw un o'r sectorau a ddefnyddir i bennu'r Aseidiadau Seiliedig ar Ddangosyddion.¹

- Yn ail, unwaith y byddant wedi penderfynu faint o'u cyllideb gyffredinol y maent am ei ddyrannu i addysg, mae awdurdodau lleol yn pennu **cyllideb addysg sydd â thair haen**:
 - Caiff Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol ei gwario ar swyddogaethau canolog sy'n ymwneud ag addysg, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wariant ar ysgolion.
 - Mae'r Cyllideb Ysgolion yn cynnwys gwariant sydd wedi'i anelu'n uniongyrchol at gefnogi ysgolion ond ystyrir ei bod yn fwy effeithiol gweinyddu'r gwariant hwn yn ganolog.
 - Y Cyllideb Ysgolion Unigol yw gweddill y cyllid addysg a ddirprwyir i ysgolion.
- Yn drydydd, mae'r awdurdod lleol yn **pennu'r gyllideb unigol ar gyfer pob ysgol** y mae'n ei chynnal, gan ddosrannu'r Cyllideb hon yn ôl ei fformwla ei hun a bennir yn lleol, o fewn y paramedrau a bennwyd gan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

¹ Dywed Llywodraeth Cymru nad yw Aseidiadau Gwariant Safonol nac Aseidiadau Seiliedig ar Ddangosyddion yn dargedau gwariant ac na ddylid eu trin felly. Maent yn cynrychioli amcangyfrif tybiannol o'r hyn sydd ei angen ar awdurdod lleol i ddarparu lefel safonol o wasanaeth (er eu bod yn dibynnu ar y swm cyffredinol o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y setliad llywodraeth leol). Maent hefyd yn cynnwys y swm y tybir y gall yr awdurdod lleol ei godi drwy'r dreth gyngor.

2.2. Targeddu cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwella ysgolion a chefnogi addysg disgyblion difreintiedig.

Yn ogystal â'r gyllideb a gaiff pob ysgol gan yr awdurdod lleol, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o ffrydiau cyllido o'i chyllideb addysg i hybu'r gwaith o weithredu **polisiau a blaenoriaethau penodol** neu i **dargeddu cyllid ychwanegol**. Caiff y rhain eu rhoi ar ffurf grantiau penodol a ddsberthir drwy'r consortia gwella ysgolion rhanbarthol, fel Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol a'r **Grant Datblygu Disgyblion (PDG)**.

Mae'r rhan fwyaf o'r PDG, sy'n ychwanegu at incwm ysgolion ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM), yn cael ei drosglwyddo yn ei gyfanrwydd i ysgolion. Mae cyfran lai o'r PDG yn cael ei rhoi i'r consortia rhanbarthol i'w dosbarthu i wella addysg Plant sy'n Derbyng Gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol i'r pedwar consortia rhanbarthol, sy'n trosglwyddo rhywfaint o'r arian hwn i ysgolion ac yn ei wario ar fentrau gwella amrywiol. Mae dadansoddiad o'r Grant hwn i'w weld ym **mhapur Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyllideb 2023-24 (gweler Atodiad D).

3. Y sefyllfa ariannu bresennol

3.1. Setliad Llywodraeth Leol 2023-24

Fel yr eglurwyd yn adran 2 uchod, prif ffynhonnell cyllid ysgolion yw Llywodraeth Cymru a hynny drwy'r Cyllid Allanol Cyfun, sy'n gyllid heb ei neilltuo, a gaiff ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o'r setliad llywodraeth leol.

Roedd **Setliad Llywodraeth Leol Derfynol 2023-24** yn gynydd o 7.9% yn **gyffredinol** (cynydd o 6.5% o leiaf i bob awdurdod lleol), o'i gymharu â 2022-23. **Awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar ba wasanaethau y caiff y cynnydd hwn ei wario.**

Gan danlinellu eto mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid craidd i ysgolion, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at yr arian y mae wedi ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw, sydd heb ei neilltuo, o fewn y Setliad Llywodraeth Leol, i awdurdodau lleol ei roi i ysgolion.

Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn y Cyfarfod Llawn ar ym mis Rhagfyr 2022:

Mae £227 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu i lywodraeth leol drwy'r setliad i helpu awdurdodau lleol ddiogelu'r amrywiaeth bwysig ac eang o wasanaethau y maen nhw'n eu darparu, **gan gynnwys ariannu ysgolion yn uniongyrchol**. O ganlyniad i'r penderfyniadau gwariant a wnaed mewn cysylltiad ag addysg yn Lloegr, cafodd Cymru **gyllid canlyniadol o £117 miliwn y flwyddyn yn natganiad yr hydref [Tachwedd 2022]**. Trwy'r dewisiadau yr ydym ni wedi'u gwneud, mae hwn yn cael ei ddarparu'n llawn i lywodraeth leol. [ein pwyslais ni]

Fodd bynnag, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol dalu cost y 5% cychwynnol yn y codiad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 o'u hadnoddau eu hunain. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd o 7.9% y rhoddodd i awdurdodau lleol ar gyfer 2023-24 a'r cynnydd cynharach o 9.4% ar gyfer 2022-23.

Pan oedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar y gyllideb, dywedodd y Gweinidog y byddai'r codiad cyflog i athrawon yn costio **£44 miliwn** i awdurdodau lleol rhwng Medi 2022 a Mawrth 2023 a **£75m** ar gyfer blwyddyn ariannol lawn 2023-24. Gofynnodd y Pwyllgor faint o'r cyllid ychwanegol a roddwyd i awdurdodau lleol i'w wario ar ysgolion fyddai'n weddill ar ôl iddynt weithredu'r codiad cyflog i athrawon. **Caiff hyn ei drafod ymhellach yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2023-24** (paragraffau 51-54 a pharagraffau 104-105) ac yn ymateb Llywodraeth Cymru (argymhelliad 5).

[Cytunwyd ar godiad cyflog ychwanegol o 3% ar gyfer 2022/23 ym mis Chwefror 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant i awdurdodau lleol ar gyfer y 3% ychwanegol hwn.]

3.2. Arian o'r gyllideb addysg

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu **£121 miliwn o PDG** i ysgolion yn 2023-24 i ategu'r cyllidebau craidd a gânt gan awdurdodau lleol, yn seiliedig ar nifer y disgyblion eFSM sydd ar eu cofrestr (dyrennir £1,150 ar gyfer pob disgybl cymwys).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu **£163 miliwn o gyllid gwella ysgolion** drwy'r consortia rhanbarthol.

3.3. Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data yn flynyddol am gyfanswm y gwariant y mae awdurdodau lleol yn ei gyllidebu ar gyfer ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cyllidebau craidd ysgolion, a ddarperir gan awdurdodau lleol, ac sy'n cael ei gyllido drwy'r Grant Cynnal Refeniw, a'r arian grant o gyllideb Addysg Llywodraeth Cymru. Mae Tabl 1 isod yn dangos y data ar gyfer y blynyddoedd diwethaf.

Tabl 1. Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion

	Gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion £ Biliwn	£ gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion fesul disgybl	Y ganran wedi ei ddirprwyo i ysgolion
2023-24	3.343	7327	81.9
2022-23	3.096	6773	82.9
2021-22	2.913	6387	83.4
2020-21	2.822	6203	83.7
2019-20	2.657	5857	83.9
2018-19	2.566	5675	84.2
2017-18	2.543	5628	84.2
2016-17	2.519	5570	84.3
2015-16	2.496	5526	83.8
2014-15	2.528	5607	82.9
2013-14	2.519	5594	82.3
2012-13	2.495	5520	81.0
2011-12	2.470	5451	76.2
2010-11	2.458	5409	75.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletinau Ystadegol: Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion. (rhifynnau sawl blwyddyn)

- Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer ysgolion yn 2023-24 8.0% yn uwch nag yr oedd yn 2022-23 (5.3% yn uwch mewn termau real). Mae'r cyllid fesul disgybl 8.2% yn uwch (5.5 % yn uwch mewn termau real).

- Mae cyllid wedi codi 25.8% mewn termau arian parod ers 2019-20 a 9.1% mewn termau real. Mae cynnydd o 25.1% fesul disgybl mewn termau arian parod ac 8.5% mewn termau real.
- Wrth edrych yn ôl dros gyfnod hirach, mae cyllid wedi cynyddu 1.1% mewn termau real (0.7 fesul disgybl) ers 2010-11. Cyn eleni (2023-24), roedd y cyllid wedi gostwng mewn termau real ers 2010-11.

[Cafodd y newidiadau termau real eu cyfrifo drwy ddefnyddio [datchwyddydd cynnyrch domestig gros](#) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF ym mis Mehefin 2023.]

3.4. Cronfeydd wrth gefn ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi [data blynyddol ar gronfeydd wrth gefn ysgolion](#). Caiff ei gofnodi fel ar ddiwedd mis Mawrth bob blwyddyn. Mae Tabl 2 isod yn dangos y data ar gyfer y blynyddoedd diwethaf:

Tabl 2: Cronfeydd wrth gefn ysgolion

	Cyfanswm	Y Disgybl
Mawrth 2022	£301m	£659
Mawrth 2021	£181m	£393
Mawrth 2020	£32m	£70
Mawrth 2019	£46m	£102
Mawrth 2018	£50m	£111
Mawrth 2017	£46m	£102
Mawrth 2016	£64m	£142
Mawrth 2015	£64m	£141
Mawrth 2014	£60m	£132

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cronfeydd wrth gefn ysgolion](#) (rhifynnau sawl blwyddyn)

Mae'r cronfeydd wrth gefn dros y ddwy flynedd diwethaf (fel ar 31 Mawrth) wedi bod yn hanesyddol uchel. Yr esboniad a roddodd Llywodraeth Cymru oedd bod ysgolion, oherwydd y pandemig, wedi cael adnoddau ychwanegol yn gymharol hwyr yn y flwyddyn ariannol ac, oherwydd hynny, rodd y darlun yn gamarweiniol. Dywedodd mai sefyllfa dros dro yw lefel uchel y cronfeydd wrth gefn a gofnodwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a hynny oherwydd bod ysgolion wedi cau a bod llai o weithgarwch yn ystod y pandemig.

Trafodir hyn ymhellach yn [adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2023-24](#) (paragraffau 65-67) a pharagraffau 112-114) ac yn [ymateb Llywodraeth Cymru](#)

4. Y rhagolygon ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus

Mae [Llywodraeth Cymru wedi disgrifio'r cylch](#) pennu cyllideb 2022-223 fel “**un o'r anoddaf**” ers datganoli, gan gyfeirio at y cyfraddau chwyddiant uchaf ers 40 mlynedd, a chynnydd “aruthrol” mewn prisiau ynni, a hynny ar adeg pan mae safonau byw yn gostwng. Dywed y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol nad yw setliad cyllido Cymru o San Steffan “**yn ddigon i ymdrin â'r holl bwysau eithriadol hyn, heb sôn am ein blaenoriaethau yn 2023-24**”. Hyd yn oed ar ôl cael £1.2 biliwn ychwanegol dros ddwy flynedd [o ganlyniad i Ddatganiad yr hydref Llywodraeth y DU](#), dywedodd y Gweinidog fod setliad Cymru yn dal yn werth hyd at £3 biliwn yn llai mewn termau real a hyd at £1 biliwn yn llai yn 2023-24.

Yn ei ymateb i [ymgyngoriad y Pwyllgor Cyllid](#) cyn Cyllideb Ddrafft 2022-23, rhybuddiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod ysgolion yn wynebu **pwysau chwyddiant o £177 miliwn a £114 miliwn yn 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno**. Dywedodd CLILC hefyd fod pob awdurdod yng Nghymru wedi cofnodi gorwariant yn 2022-23 ac y byddant yn wynebu bylchau yn eu cyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Ar wahân i fisoedd cyntaf y pandemig, meddai, nid yw'r pwysau wedi cynyddu i'r fath raddau nac mor gyflym erioed o'r blaen.

Yn ei lythyr yn ymwneud â'r ddeiseb hon, tanlinellodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y cyd-destun hwn: Dywed ei fod yn “cydnabod bod yr argyfwng costau byw yn rhoi ysgolion ac awdurdodau lleol o dan bwysau sylweddol” ond “nad oes atebion hawdd i sut i ddatrys y problemau a wynebir”.

Cyhoeddodd [y Prif Weinidog ddatganiad ar 9 Awst 2023](#) yn dilyn cyfarfod o Gabinet Llywodraeth Cymru i drafod pwysau ariannol. Dywedodd mai'r sefyllfa bresennol yw'r “sefyllfa ariannol anoddaf yr ydym wedi'i hwynebu ers datganoli” a:

... roedd ein sefyllfa ariannol, wedi Cyllideb y Gwanwyn y DU ym mis Mawrth, hyd at £900m yn is mewn termau real na phan bennwyd y gyllideb honno gan Lywodraeth y DU ar adeg yr adolygiad o wariant diwethaf yn 2021(...)

Bydd y Cabinet yn gweithio dros yr haf i liniaru'r pwysau cyllidebol hyn yn seiliedig ar ein hegwyddorion, gan gynnwys diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, cyn belled â phosibl, a thargedu cymorth tuag at y rheini sydd â'r angen mwyaf.

5. Gwaith craffu blaenorol yn y Senedd

Trafododd Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd ddeiseb debyg yn 2019, i "Ddiogelu cyllid ysgolion neu gyfaddef bod y gwasanaeth a ddarperir yn gwanhau" [P-05-872](#). Tynnwyd sylw at y ddeiseb hon.

Roedd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd yn cynnal [ymchwiliad polisi i gyllid ysgolion](#) ar y pryd. Roedd hwn yn ystyried a oedd y swm cyffredinol o gyllid a oedd ar gael i ysgolion yn ddigonol a'r modd roedd y cyllid hwnnw'n cael ei ddosbarthu. Mewn ymateb, comisiynodd Llywodraeth Cymru [adolygiad gan yr economegydd addysg, Luke Sibieta](#).

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg presennol yn parhau i graffu ar lefel y cyllid sydd ar gael i ysgolion, gan gynnwys fel rhan o'i waith o graffu ar y gyllideb flynyddol. Y tro diwethaf iddo wneud hynny oedd ym mis [Ionawr 2023](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

P-06-1360 Dylid adeiladu ffordd ymadael syml rhwng yr M48 tua'r gorllewin a'r M4 tua'r dwyrain yn Rhosied

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 13 November 2023

Cyfeirnod: SR23/6916

Rhif y ddeiseb: P-06-1360

Teitl y ddeiseb: Dylid adeiladu ffordd ymadael syml rhwng yr M48 tua'r gorllewin a'r M4 tua'r dwyrain yn Rhosied

Geiriad y ddeiseb: Bob tro mae Pont Hafren (Croesfan yr M48) ar gau i draffig, mae'r ardal sy'n cynnwys Cas-gwent, Cil-y-coed, Magwyr gyda Gwndy a Dwyrain Casnewydd yn llythrennol dod i stop. Yn fras, y rheswm dros hynny yw bod yn rhaid i draffig Cas-gwent sy'n anelu am Loegr naill ai gylchu o amgylch yr isffyrdd heibio Cil-y-coed a thrwy Fagwyr, neu fynd yn syth i lawr yr M48 i gyffordd 23 yr M4, gan droi o amgylch y gylchfan yn eu lluoedd, ac atal traffig Casnewydd a Magwyr rhag llifo allan i gyffordd 23. Mae'n rhaid dirwyn y sefyllfa hon i ben, ac mae modd gwneud hynny.

Ar 13/03/2023 am 07:25 gadewais fy nghyfeiriad yng Ngwndy er mwyn mynd i weithio yn Portishead. Wedi gadael Manor Chase ar y B4245, ymunais â chiw o draffig bron ar unwaith, ac o ganlyniad roedd y daith arferol o tua phedwar/pum munud i gyrraedd ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M4 ar gyffordd 23 wedi cymryd union ddwy awr a hanner. Roedd yn rhaid i mi ddyfalbarhau gan fy mod wedi cofrestru ar gwrs hyfforddi gorfodol a oedd yn gofyn am fod yno mewn person. Dyw'r stori hon ddim heb ei thebyg. Yr un yw'r profiad i gannoedd, os nad miloedd o bobl bob tro y mae Pont Hafren ar gau i draffig. Mae'n rhaid i'r gornel gyfan hon o Gymru ddioddef y sefyllfa hon a byddai'n hawdd lleddfuf'r mater gyda ffordd ymadael syml a chymharol rad rhwng yr M48 tua'r gorllewin a'r M4 tua'r dwyrain rhwng Rhosied a Gwndy.



Cae yn unig yw'r tir ar hyn o bryd, mae'r dopograffeg yn ffafriol a byddai ffordd ymadael yn atal traffig Cas-gwent rhag cau cylchfan cyffordd 23 yn llwyr, gan osgoi'r oedi hwn.

1. Cefndir

Mae'r M48 a'r M4 yn cyfarfod wrth gyfnewidfa Rhosied - cyffordd 23 yr M4 - gerllaw Magwyr.

Mae pontydd Hafren yr M4 a'r M48 yn gyfrifoldeb Priffyrdd Cenedlaethol, asiantaeth Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am reoli, cynnal a chadw a gwella rhwydwaith ffyrdd strategol Lloegr.

Mae Priffyrdd Cenedlaethol yn dangos bod pont yr M48 yn cau'n amlach o ganlyniad i waith cynnal a chadw, ac i wella diogelwch i swyddogion traffig.

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer yr M4 a'r M48 yng Nghymru, gan gynnwys cyfnewidfa Rhosied.

Yn dilyn adroddiad y Panel Adolygu Ffyrdd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023, nododd Llywodraeth Cymru ei hymateb mewn Datganiad Polisi Ffyrdd newydd, yn ogystal â Chynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth newydd.

Mae'r datganiad polisi yn nodi dan ba amgylchiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn ffyrdd, gan ddatgan y bydd yn gwneud hynny er mwyn:

- cefnogi newid moddol a lleihau allyriadau carbon;
- gwella diogelwch trwy newidiadau ar raddfa fach;
- addasu i effeithiau newid hinsawdd;
- rhoi mynediad a chysylltedd i swyddi a chanolfannau gweithgarwch economaidd mewn ffordd sy'n cefnogi newid moddol.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi Uned Cyflenwi Burns, i oruchwylio'r gwaith o weithredu 58 argymhelliad Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Nod y gwaith yw cynnig dewisiadau eraill yn lle siwrneiau ar yr M4 ac annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn y rhanbarth, gan liniaru tagfeydd ar yr M4 yn ne-ddwyrain Cymru.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae llythyr y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd ar y ddeiseb hon yn dweud y canlynol:

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno slipffordd yn y lleoliad hwn, ac mae'n annhebygol y byddai cynllun o'r math hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid o dan ein profion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol a nodir yn ein hymateb i'r Adolygiad Ffyrdd.

Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn amlinellu'r gwaith sydd wedi dechrau i weithredu argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru i liniaru tagfeydd ar yr M4.

3. Camau gan Senedd Cymru

Er bod argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru wedi'u trafod yn helaeth yn y Senedd, nid yw hynny'n wir am y mater penodol a godwyd gan y ddeiseb.

Fodd bynnag, ar 14 Gorffennaf 2021, [gofynnodd Natasha Ashgar AS i'r Dirprwy Weinidog yn y Cyfarfod Llawn](#) a fyddai'n ymrwymo i fwrw ymlaen â gwaith datblygu ar gyfer "[c]yffordd traffordd ar yr M48, lle roedd tollau pont Hafren yn arfer bod, i leddfau tagfeydd ar yr M4." Roedd y tollau rhwng cyffyrdd 23 a 24 yr M4. Gwrthododd y Dirprwy Weinidog y cynnig hwn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1360
Ein cyf/Our ref MA/LW/02014/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

30 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Medi ynghylch deiseb P-06-1360 Adeiladu slipffordd syml rhwng yr M48 tua'r gorllewin a'r M4 tua'r dwyrain yn Rogiet.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno slipffordd yn y lleoliad hwn, ac mae'n annhebygol y byddai cynllun o'r math hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid o dan ein profion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol a nodir yn ein [hymateb i'r Adolygiad Ffyrdd](#).

Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn y byddwn yn dal i fuddsoddi mewn ffyrdd. Fodd bynnag, rydym yn codi'r safon ar gyfer sefyllfaoedd lle mai ffyrdd newydd yw'r ymateb cywir i broblemau trafndiaeth. Fel y mae'r [Adolygiad Ffyrdd](#) yn ei nodi, mae ffordd y gofynnwyd amdani i leddfu tagfeydd yn aml yn arwain at draffig ychwanegol, sydd mewn amser yn dod â galwadau pellach am lonydd ychwanegol, cyffyrdd ehangach a mwy o ffyrdd. Rydym yn troi mewn cylchoedd, gan allyrru mwy a mwy o garbon wrth inni wneud hynny ac ni fyddwn yn cyrraedd Sero Net oni bai ein bod yn rhoi'r gorau i wneud yr un peth drosodd a throsodd.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2022-27) wedi'u nodi yn y [Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol](#).

Sefydlwyd [Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru](#) (SEWTC) hefyd i ystyried y problemau, y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd yn Neddwyrain Cymru. Yn ei adroddiad Casgliadau Newydd, cadarnhaodd SEWTC mai'r prif achos am dagfeydd ar yr M4, o bell ffordd, yw nifer y cerbydau sy'n defnyddio'r ffordd ar adegau penodol o'r dydd.

Cafodd 58 argymhelliad y Comisiwn i fynd i'r afael â thagfeydd eu [cymeradwyo](#) gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2021. Mae'r argymhellion yn cyd-fynd yn agos â'n strategaeth drafnidiaeth, [Llwybr Newydd](#). Rhwydweithiau trafndiaeth integredig, carbon isel ac amlfoddol fydd dyfodol trafndiaeth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r [Uned Cyflawni Burns](#) sydd â'r dasg o gyflawni argymhellion y Comisiwn yn llunio Adroddiadau Blynyddol, gan nodi eu cynnydd yn erbyn mesurau tymor byr, canolig a hir.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Trafnidiaeth Cymru yn [ymgyngori ar eu cynlluniau ar gyfer gorsafoedd newydd](#) rhwng Caerdydd Canolog a Chyffordd Twnnel Hafren, a chynigion gwasanaeth trên newydd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee', is centered within a light gray rectangular box.

Lee Waters AS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Argyfwng deintyddiaeth yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 13 November 2023

Cyfeirnod: SR23/6946-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1364

Teitl y ddeiseb: Argyfwng deintyddiaeth yng Nghymru. Rhaid sicrhau bod gan bob oedolyn a phlentyn fynediad at ddeintydd.

Geiriad y ddeiseb: Ym mis Hydref 2022, roedd rhestr aros 26 mis i gofrestru gyda deintydd GIG a chael archwiliad yng Nghymru.

Roedd llythyr agored gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain deintyddion y GIG yn beirniad contractau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn galw am welliannau a buddsoddiadau y mae mawr eu hangen i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael mynediad at wasanaethau deintyddol. Roedd yn mynegi pryderon ynghylch llawer o ddeintyddion yn gadael y GIG i fynd i bractis preifat.

<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-64351984>

Dylai pawb gael mynediad at ofal deintyddol, archwiliadau rheolaidd a thriniaeth amserol.

Yn anffodus, mae fy neintydd wedi gadael y GIG i fynd i bractis preifat. O ganlyniad, rwyf wedi bod yn chwilio am ddeintydd GIG arall ac mae'r un agosaf y gwnes i ei ganfod 79 milltir o fy nghartref, sy'n annerbyniol.



1. Y cefndir

Mae anawsterau ynghylch cael mynediad at ofal deintyddol yn y GIG yng Nghymru wedi cael cryn dipyn o sylw yn ddiweddar, gyda nifer o Aelodau o'r Senedd yn disgrifio'r sefyllfa'n 'argyfwng'.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar fynediad at wasanaethau deintyddol, gan arwain at ôl-groniad o gleifion sydd angen gofal a thriniaeth ddeintyddol. Fodd bynnag, roedd problemau hirsefydlog o ran mynediad yn bodoli cyn y pandemig.

Yn ystod y ddadl ar ddeintyddiaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mai 2023, cyfeiriodd nifer o Aelodau at ganfyddiadau arolygon a gynhaliwyd ganddynt, gan dynnu sylw at anawsterau ledled Cymru o ran cael gweld deintydd drwy'r GIG, a phrinder y deintyddion sy'n derbyn cleifion GIG newydd. Rhoddwyd sylw i rai o'r materion ynghylch mynediad at ddeintyddiaeth yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn 21 Mehefin 2023 hefyd.

Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ymchwiliad i ddeintyddiaeth a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Chwefror 2023, gydag 16 o argymhellion mewn perthynas â gwasanaethau deintyddiaeth yng Nghymru. Yn ei hymateb i'r adroddiad, gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn 11 o'r argymhellion, derbyn tri ohonynt yn rhannol, a gwrthod y ddau arall. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor ar 21 Mehefin 2023.

Dangosodd y sesiynau tystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig nad oes darlun clir ynghylch faint o bobl sy'n aros i weld deintydd gyda'r GIG ar hyn o bryd na faint o bobl sydd wedi methu mynd ar restr aros i weld deintydd gyda'r GIG gan nad oes rhestr aros ganolog. Nid oes data yn cael eu cadw'n ganolog ychwaith ar nifer y cleifion sy'n cael eu trin yn breifat. Mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth fyth gan fod modd i bobl gofrestru i fod ar fwy nag un rhestr aros.

Galwodd adroddiad y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i ystyried un rhestr aros ganolog ar gyfer Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Gofal Iechyd Digidol Cymru i bennu cwmpas cynllun ar gyfer rhestr aros ddeintyddol Cymru gyfan ac mae ymrwymiad i gyflawni'r ateb hwnnw yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae [adroddiad y Pwyllgor](#) ac [Aelodau yn y Senedd](#) hefyd wedi cyfeirio at 'system dair haen' mewn deintyddiaeth yng Nghymru. Un haen yw'r bobl sy'n gallu cael mynediad at ddeintydd GIG, a haen arall yw'r bobl sy'n talu i fynd yn breifat. Y drydedd haen yw'r bobl sy'n methu gweld deintydd drwy'r GIG ac sy'n methu fforddio talu'n breifat.

Cytundebau deintyddol a chyllid deintyddol

[Ers mis Ebrill 2022](#), mae practisau GIG yn gallu dewis bod yn rhan o raglen [diwygio contract](#) deintyddiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar atal ac ar ofal yn seiliedig ar anghenion. Mae hyn yn golygu newid oddi wrth gynnal archwiliadau bob chwe mis ar gyfer pob claf. Y nod yw rhyddhau capasiti i gynnis apwyntiadau i gleifion newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu [£2 filiwn ychwanegol bob blwyddyn](#) ar gyfer gwella mynediad at wasanaethau deintyddol ledled Cymru.

Fodd bynnag, [honnodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain \(BDA\) ym mis Ionawr 2023](#) fod contractau GIG newydd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys gofyniad i weld cleifion newydd yn digwydd ar draul y cleifion sydd eisoes wedi'u cofrestru gyda phractisau. Anfonodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain [lythyr agored](#) at Lywodraeth Cymru yn rhybuddio y bydd cytundebau newydd yn gorfodi practisau i adael y GIG, ac mae wedi [rhybuddio hefyd](#) y gallai deintyddiaeth y GIG ddiflannu yng Nghymru.

Mae [Llywodraeth Cymru](#) wedi dechrau ar y broses a fydd yn arwain at drafodaeth ffurfiol ar [gontract deintyddol newydd](#).

Mae [adroddiad y Pwyllgor](#) yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar a yw'r lefelau cyllid presennol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion. [Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud](#) unwaith y bydd rhestr aros ganolog ar waith, bydd yn gallu cadarnhau faint o bobl sy'n aros am ofal deintyddol gyda'r GIG ac asesu'r lefelau ariannu sydd eu hangen.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor ar 15 Hydref 2023 yn amlygu bod mwyafrif y deintyddion yn ymarferwyr annibynnol, hunangyflogedig sy'n gallu dewis contract i neilltuo cyfran o'u hamser ar gyfer darparu triniaeth GIG ar ran Byrddau Iechyd. O ganlyniad, gallent ddarparu gofal GIG yn unig, gweithio y tu allan i'r GIG yn gyfan gwbl neu, fel sy'n

digwydd yn aml, ddarparu cymysgedd o ofal deintyddol gyda'r GIG a gofal deintyddol preifat.

Dywedir bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i **fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir** drwy eu cynlluniau gweithredol. Mae'r Gweinidog yn cydnabod nad yw mynediad at ddeintyddiaeth fel yr hoffai Llywodraeth Cymru iddo fod ac y bydd "newidiadau sylweddol ac ymarferol yn cymryd amser, a bydd angen buddsoddi cyllid mewn modd sy'n anodd yn yr hinsawdd ariannol bresennol".

O ran **terfynu contractau deintyddol y GIG**, dywed y Gweinidog fod 413 o contractau deintyddol ar waith ledled Cymru ar ddechrau mis Ebrill 2022, a bod 26 o'r contractau hynny wedi cael eu terfynu am amrywiaeth o resymau megis ymddeoliad, gwerthu'r practis, a phractisau'n dewis symud i ddarpariaeth breifat yn unig. Yn y mwyafrif o achosion lle mae contractau wedi cael eu hamrywio neu eu terfynu, mae Byrddau Iechyd eisoes wedi ail-gomisiynu gwasanaethau newydd neu maent wrthi'n gwneud hynny. Mae'r Gweinidog yn nodi bod hyn yn "dangos bod digon o barodrwydd i ymgymryd â chontractau'r GIG". Amlygir hefyd y ffaith, pan fydd deintydd yn penderfynu lleihau neu derfynu ei ymrwymiad i'r GIG, fod y cyllid ar gyfer y ddarpariaeth a gollir yn aros gyda'r Bwrdd Iechyd fel y gall y Bwrdd adfer lefel y gwasanaethau deintyddol a gynigir gan y GIG.

Dywedir bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod mesurau'n cael eu cynnwys yn y broses o adfer gwasanaethau i **sicrhau bod practisau deintyddol yn gweld cleifion newydd**. Mae'r Gweinidog yn nodi bod bron 246,000 o gleifion newydd wedi cael mynediad at ddeintydd GIG ledled Cymru ers mis Ebrill 2022. Nodir bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau deintyddol i gynyddu mynediad ar gyfer cleifion newydd, ond bod oedi'n bosibl wrth i apwyntiadau ar gyfer gofal arferol ddod ar gael mewn rhai ardaloedd lleol.

Gan fod y **gweithlu** yn cael ei ystyried rhan allweddol o wella mynediad at ofal deintyddol yn y GIG, dywedir bod Llywodraeth Cymru yn "gweithio i nodi a chreu cyfleoedd arloesol i ehangu sgiliau a gwella llwybrau gyrfa ym maes deintyddiaeth er mwyn sicrhau bod y cyfle i weithio yng Nghymru yn fwy deniadol". Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ganolbwyntio ar **recriwtio a chadw'r gweithlu deintyddol** yng Nghymru. Cafodd cynllun ei lansio'n ddiweddar i gymell hyfforddeion deintyddol mewn practisau deintyddol ledled

Cymru wledig, yn hytrach nag ardaloedd trefol mwy poblogaidd. Y nod yw helpu i gynyddu mynediad at ofal y GIG i bobl leol yng nghefn gwlad Cymru.

Mae **cymysgedd sgiliau** (h.y. gwneud defnydd o sgiliau'r tîm deintyddol cyfan) hefyd yn chwarae rhan arwyddocaol yn y ddarpariaeth o ofal deintyddol yn y GIG. Mae therapyddion deintyddol, hylenywyr a thechnegwyr deintyddol clinigol wedi bod â'r gallu i agor a chau cyrsiau triniaeth GIG ers mis Ebrill 2023, sy'n cynyddu capasiti'r gweithlu presennol.

Mae'r Gweinidog yn cynghori y dylai **pobl sy'n ceisio mynediad at wasanaethau deintyddol gyda'r GIG** gysylltu â'u Bwrdd Iechyd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fynediad yn eu hardal leol, gyda'r bwriad o ymuno â rhestr aros practis. Bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu manylion am lefel a lleoliad presennol y gwasanaethau deintyddol GIG yn yr ardal. Byddant hefyd yn gallu darparu manylion am y sesiynau mynediad ac argaeledd y driniaeth frys y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu i'r trigolion hynny nad ydynt wedi'u cofrestru gyda phractis ar hyn o bryd. Fel mesur dros dro, mae'n bosibl y gellir trefnu i blant gael eu gweld gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, yn enwedig os oes pryderon am iechyd ceg plentyn neu faint o amser sydd wedi mynd heibio ers ei archwiliad deintyddol diwethaf.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1364
Ein cyf/Our ref EM/02543/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Medi ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â mynediad at ddeintyddiaeth y GIG i oedolion a phlant.

Rydym yn awyddus i gyrraedd sefyllfa lle mae pawb yng Nghymru sy'n dymuno cael mynediad at ofal deintyddol y GIG yn gallu gwneud hynny. Rydym yn gweithio gyda'r Byrddau Iechyd, sydd â'r cyllidebau perthnasol a'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG, i roi sylw i fylchau mewn gwasanaethau drwy eu cynlluniau gweithredu.

Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn ymarferwyr annibynnol a hunangyflogedig sy'n gallu dewis a ydynt am gcontractio rhan o'u hamser i ddarparu triniaeth y GIG ar ran Byrddau Iechyd. Gallent ddarparu gofal y GIG yn unig; gweithio yn gyfan gwbl y tu allan i'r GIG; neu, fel sy'n digwydd yn aml, ddarparu cymysgedd o ofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat.

Mae bob amser yn siomedig pan fydd deintydd yn penderfynu lleihau ei ymrwymiad i ddarparu gofal y GIG, neu ddod â'r ymrwymiad hwnnw i ben yn gyfan gwbl. Mae'n bwysig pwysleisio bod y cyllid ar gyfer unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei cholli yn parhau ym meddiant y Bwrdd Iechyd er mwyn i'r bwrdd allu sicrhau bod gwasanaethau deintyddol y GIG yn dychwelyd yn ôl i'r un lefel.

Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG gysylltu â'i Fwrdd Iechyd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch mynediad yn ei ardal leol, a bydd hynny'n ei helpu i ymuno â rhestr aros practis. Bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu rhoi manylion am lefelau presennol a lleoliadau gwasanaethau deintyddol y GIG sydd ar gael yn yr ardal. Bydd hefyd yn gallu rhoi manylion am y sesiynau mynediad a'r driniaeth frys sydd ar gael, a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddarperir gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer preswylwyr sydd heb gael lle mewn practis ar y pryd. Fel mesur dros dro, gallai fod yn bosibl trefnu i blant gael eu gweld gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, yn enwedig os oes unrhyw bryderon am iechyd ceg y plentyn neu hyd yr amser ers ei archwiliad deintyddol diwethaf.

Ym mis Hydref 2004, cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ganllawiau ar gyfer pa mor aml y dylid cynnig archwiliadau deintyddol. Mae'r canllawiau'n nodi'r cyfnod a argymhellir rhwng apwyntiadau archwilio rheolaidd, gan ddweud y dylent gael eu pennu ar gyfer pob claf fel unigolyn a'u teilwra i fodloni ei anghenion penodol ar sail asesiad o lefelau clefyd a'r risg mewn perthynas â chlefyd deintyddol. Bellach nid oes angen i bawb gael apwyntiad i weld y deintydd bob chwe mis, yn bennaf gan fod iechyd y geg yng Nghymru wedi gwella'n ddramatig yn ystod y degawdau diwethaf. Ar gyfer plant, mae'r canllawiau'n argymhell 12 mis fel y cyfnod hiraf rhwng apwyntiadau rheolaidd.

Nid yw'r sefyllfa o ran mynediad at ddeintyddiaeth fel y dymunwn iddi fod. Mae'r problemau gyda mynediad a oedd yn bodoli yn y gorffennol wedi cael eu gwaethygu gan y cymhlethdodau a achoswyd gan y pandemig. Rydym yn gweithio i ddiwygio'r system ddeintyddiaeth gyda'r nod o sicrhau gwelliannau i gleifion a'r proffesiwn. Fodd bynnag, bydd gweithredu newidiadau sylweddol ac ymarferol yn cymryd amser, a bydd angen buddsoddi cyllid mewn modd sy'n anodd yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Mae'r diwygiadau'n golygu bod practisau'n canolbwyntio ar atal ac ar ddarparu gofal yn seiliedig ar angen, yn hytrach na chynnal archwiliadau rheolaidd bob chwe mis i bob claf, a hynny gan ein bod yn gwybod ei bod yn bosibl atal pydredd y dannedd a'r clefyd o'u cwrpas i raddau helaeth iawn drwy frwsio'r dannedd yn drylwyr a bwyta llai o siwgr. Wedyn gall y capasiti sy'n cael ei ryddhau gan y newid pwyslais hwn ddod ar gael i ddarparu mynediad i gleifion newydd, ac i'r rheini sydd ag angen gofal parhaus gan dîm deintyddol y GIG, neu ofal brys i ddatrys angen deintyddol penodol heb gael gofal parhaus.

Mae'n ymddangos bod naratif yn cylchredeg bod practisau deintyddol yn dod â'u contractau ar gyfer gofal y GIG i ben, er mwyn iddynt symud at wasanaeth preifat yn unig, gan adael rhai cleifion heb wasanaeth ar ôl symud y cleifion hynny sy'n gallu fforddio talu i gynlluniau deintyddol preifat. Er bod rhai enghreifftiau o hynny'n digwydd, nid yw nifer yr enghreifftiau'n cyfateb i lefel y sŵn ynghylch y mater hwn. Ar ddechrau mis Ebrill 2022, roedd 413 o gontractau deintyddol ar waith ar draws Cymru; mae 26 o'r contractau hynny wedi cael eu terfynu am amrywiaeth o resymau megis ymddeoliad, gwerthu'r practis, a phractisau'n dewis symud i ddarpariaeth breifat yn unig. Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae contractau wedi cael eu hamrywio neu eu terfynu, mae'r Byrddau Iechyd wedi ail-gomisiynu gwasanaethau yn eu lle, neu maent yn y broses o wneud hynny. Mae hyn yn dangos bod digon o barodrwydd i ymgymryd â chontractau'r GIG. Wrth gwrs, mae'n cymryd amser, ac nid oes modd osgoi'r bwch a fydd yn codi yn y ddarpariaeth tra bod y broses gaffael yn cael ei chynnal.

Fel rhan o'r gwaith o adfer gwasanaethau, rydym yn gweithio gyda'r Byrddau Iechyd i gynnwys mesurau ar gyfer sicrhau bod practisau deintyddol yn gweld cleifion newydd. Rwyf wedi ymrwmo i gynyddu mynediad i gleifion newydd fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r ddarpariaeth ddeintyddol, ac ers mis Ebrill 2022, mae bron 246,000 o gleifion newydd ledled Cymru wedi cael mynediad at ddeintydd sy'n darparu gwasanaeth y GIG. At ei gilydd, derbyniodd dros 1 filiwn o bobl ofal deintyddol y GIG drwy'r gwasanaeth deintyddol cyffredinol y llynedd, a darparwyd dros 1.3 filiwn o gyrsgiau o driniaeth. Os oes angen triniaeth ddeintyddol frys ar glaf, neu os yw'r claf mewn poen, mae darpariaeth yn ei lle i ddarparu gofal yn gyflym. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau deintyddol mewn modd sy'n parhau i gynyddu mynediad i gleifion newydd, ond gallai fod oedi cyn i apwyntiadau ar gyfer gofal rheolaidd ddod ar gael mewn rhai ardaloedd lleol.

Mae'r gweithlu'n rhan allweddol o'r ymdrechion i wella mynediad at ofal deintyddol y GIG, ac rydym yn gweithio i nodi a chreu cyfleoedd arloesol i ehangu sgiliau a gwella llwybrau gyrfa ym maes deintyddiaeth er mwyn sicrhau bod y cyfle i weithio yng Nghymru yn fwy deniadol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda rhanddeiliaid i gynnal ffocws ar recriwtio a chadw'r gweithlu deintyddol yng Nghymru. Yn ddiweddar iawn, mae wedi lansio cynllun i gymell hyfforddeion deintyddol i weithio mewn practisau deintyddol yn ardaloedd gwledig Cymru, yn hytrach nag yn yr ardaloedd trefol mwy poblogaidd. Bydd hynny'n helpu i wella mynediad at ofal y GIG i bobl yng nghefn gwlad Cymru.

Mae'r cymysgedd o sgiliau hefyd yn gallu chwarae rôl bwysig yn y ddarpariaeth o ofal deintyddol y GIG, ac mae'r rhaglen ddiwygio wedi tynnu sylw at fanteision sicrhau bod cydbwysedd o ran sgiliau'r tîm deintyddol er mwyn ei alluogi i ganolbwyntio ar atal. O fis Ebrill 2023, gall therapyddion deintyddol, hylenywyr deintyddol a thechnegwyr deintyddol clinigol agor a chau cyrsiau o driniaeth y GIG, sef rhywbeth sy'n cynyddu capasiti ein gweithlu presennol.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

P-06-1365 Ailagor llinellau rheilffyrdd i gysylltu gogledd a de Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 13 November 2023

Cyfeirnod: SR23/6946-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1365

Teitl y ddeiseb: Ailagor rheilffyrdd i gysylltu gogledd a de Cymru

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r daith rhwng gogledd a de Cymru bob amser yn un hir, yn enwedig wrth ddefnyddio'r rheilffyrdd. Mae teithio ar y trên rhwng Bangor a Chaerdydd yn golygu bod rhaid i rywun fynd y tu allan i Gymru i allu cyrraedd pen y daith.

Mae angen i'r rheilffyrdd gysylltu Cymru yn fewnol. Y cynllun ar gyfer gwneud hyn fyddai ailagor llinellau Bangor - Afon-wen ac Aberystwyth i Gaerfyrddin, ac integreiddio'r rhain â lein y Cambrian, a'r lein o Gaerfyrddin i Gaerdydd.

Dyma'r hyn y mae'r ddeiseb hon yn galw'n benodol amdano:

